# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 4 Mehefin 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Croeso i Eisteddfod yr Urdd



*Y Saer Rhodri Owen yn cyflwyno'r Gadair*



*Y gemydd Ann Catrin yn cyflwyno'r Goron*


*Bathodyn ar y Bryn*

**Tu mewn y rhifyn hwn :**

**Eitemau arbennig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd**
**Y dref yn paratoi**
**Cyflwyno'r Goron a'r Gadair**
**Atgofion am yr Urdd**

**Ynghyd â'r erthyglau arferol, a'r Croesair a'r Cartŵn wrth gwrs**

## Noson cyflwyno y Gadair a'r Goron yn Llyfrgell Dinbych



Nodddwyr y Goron—Grŵp Cynhefin



Cyfarwyddwr yr Urdd—Sian Eirian



Deuawd gan Ysgol Glan Clwyd (noddwyr y Gadair)



Bethan Hughes, y Prif Lyfrgellydd



Gwenan Mars Lloyd yn adrodd y Cywydd Croeso



Geraint Davies ar ran y Cyngor Sir



Dyfan Phillips—Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith








## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Mehefin**
**Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd

Tra dwi'n sgwennu hwn dwi'n edrych allan trwy'r ffenestr a gweld rhesi o faneri gwyn, coch a gwyrdd ar ein tŷ ni, y ddraig goch ar un arall. Ydi mae Dinbych yn paratoi at Eisteddfod yr Urdd. Wrth gwrs, erbyn y byddwch yn darllen hwn, bydd yr Eisteddfod unai yn ei hanterth neu wedi mynd heibio'n barod! Ta waeth mae'r rhifyn yn gyfle i ddangos tipyn ar gamau olaf y paratoi a chan mai Eisteddfod Dathlu Canmlwyddiant ydi hon mae hefyd yn gyfle i edrych yn ôl ar ganrif o weithgarwch arloesol gan y mudiad. Mae sawl erthygl o atgofion yn y rhifyn ond dwi am ddewis un pwt o atgof a dderbyniwyd achos dwi'n meddwl fod o'n dangos pwysigrwydd yr Urdd i lawer ohonom fel modd o sefydlu neu atgyfnerthu ein Cymreictod.

> Yn ein harddegau aeth pump ffrind a mi o ysgol ramadeg Ardwyn, Aberystwyth i Glanllyn am wythnos o wyliau yn yr haf. Roeddem yn ffrindiau bore oes - wedi bod gyda'n gilydd yn yr ysgol feithrin ac yna yn yr ysgol Gymraeg yn Aberystwyth . Ond, gresyn o beth i ddeud, pan gyrhaeddom yr ysgol ramadeg, gan ein bod braidd yn swil ac i osgoi cael ein gwatwar, dechreuom siarad Saesneg gyda'n gilydd. A felly y bu hyd nes i ni wario wythnos yn Glanllyn a theimlo am y tro cyntaf go iawn y balchder o fod yn Gymry. Dyna ddiwedd ar y cyfathrebu yn yr iaith fain a chael hyder i siarad yn yr ysgol bellach yn ein mamiaith.
>
> *Lynn Thomas*

Bydd llawer ohonoch yn gwybod mod i wedi bod yn Gynghorydd Tref ers 5 mlynedd. Penderfynais i a sawl un arall beidio sefyll eto. Un o'r rhesymau yw ei bod yn anodd iawn cael y Cyngor i edrych ar ddatblygiad y dref yn y tymor hir, gormod a fanion cymharol dibwys dydd i ddydd i'w trafod. Mi geision ni newid pethau, dim ddigon caled efallai. Bydd hyn yn golygu mai llawer gwannach fydd llais y Cymry Cymraeg ar y Cyngor a llais pobl o'r un anian gwleidyddol a mi. Gobeithio'n arw bydd yr ewyllys da sydd gan rhai o'r Cynghorwyr eraill at yr iaith yn parhau o leiaf. Cadwn olwg arnynt. Gobeithiaf yn arw bydd yna fwy o bobl gyda'r un syniadau a mi am yr iaith ac am wleidyddiaeth yn gyffredinol am ymgeisio y tro nesaf a bydd ganddynt yr egni a'r dyfalbarhad i lwyddo i newid pethau lle fethon ni. Yn bersonol dwi'n edrych ymlaen i geisio gwneud cyfraniad gwahanol a mwy effeithiol drwy gyrff a mudiadau eraill.

*Dyfrig Berry*




**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Mehefin**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Mai 20**

sir ddinbych denbighshire County Council
CYMRAEG

Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Cymdeithas Caledfryn



Aeth ymweliad gyda'r nos diwedd tymor Cymdeithas Caledfryn â ni i ffatri Llaeth y Llan ac i Dal y Bryn, cartref Gareth a Falmai Roberts yn Llanefydd.
Cyflwynwyd Gareth gan Rod ein Llywydd cyn i ni fwynhau cyflwyniad pwynt pŵer diddorol ac addysgiadol iawn gan Gareth mewn ystafell fodern ar y safle. Roedd yn ei afiaith!!
Fel gŵr ifanc ar y fferm flynyddoedd yn ôl bellach, roedd Gareth drwy'r amser yn meddwl am ffyrdd i arbrofi ar ei fferm 50 acer, Tal y Bryn. Bu ef a'i wraig Falmai ar gyrsiau er mwyn ymestyn eu gwybodaeth o gynhyrchu bwyd ac ar gyrsiau sefydlu busnes gan edrych ar arallgyfeirio mewn cyfnod anodd. Yn dilyn arbrofi fe lansiwyd iogwrt Llaeth y Llan yn 1985.

Pan gafodd iogwrt Llaeth y Llan ei lansio yn 1985, cafodd ei werthu bennaf fel rhan o rownd lefrith Gareth ac mewn siopau annibynnol. Erbyn 2014 fe




Lori Llaeth y Llan







Y llaethdy newydd

gyflogwyd 25 o weithwyr ac erbyn 2016 roedd 43 yn gweithio i'r cwmni. Heddiw mae dros hanner cant o weithwyr. Mae'r cwmni a'r brand yn adnabyddus drwy Gymru a'r gororau ac mae iogwrt Llaeth y Llan ar werth yn y prif archfarchnadoedd.
Blwyddyn fawr i'r cwmni a'r teulu oedd 2017 pan agorwyd yn swyddogol y llaethdy newydd drws nesaf i'r hen laethdy gwreiddiol a hyn ar safle'r ffarm.
Wyddoch chi fod 14 o flasau o iogwrt Llaeth y Llan ar y farchnad yn y potiau bach 125g? Lemwn yw'r diweddaraf.
Wyddoch chi fod mynd mawr ar y potiau mwy 450g.? Fanila ydi'r diweddaraf.
Wyddoch hefyd bod potiau bychain 85g ar gael i ysgolion?
Hefyd iogwrt blas taffi sy'n gwerthu orau.
Aeth Gareth â ni i'r llaethdy newydd ac i weld y gwahanol adrannau yno. Mewn un ystafell fawr gwelsom danciau enfawr lle'r oedd yr iogwrt yn cael ei brosesu ac yn y pen arall, stordy enfawr oedd yn llawn potiau o iogwrt yn barod i'w cludo mewn lorïau i siopau ac archfarchnadoedd.
Cofiwch fod pob potyn o iogwrt Llaeth y Llan yn llawn o lefrith Cymreig ac yn llawn calsiwm a prodin.
Mae Llaeth y Llan wedi derbyn sawl gwobr aur drwy Brydain am eu cynnyrch ac yn ddiweddar iawn derbyniodd Llaeth y Llan Wobr Bwyd a Diod Cymru, Cynhyrchydd y Flwyddyn 2022. Llongyfarchiadau iddynt!
Hyd heddiw mae'r cwmni'n dal i fod yn gwmni teuluol ac yn parhau i gynhyrchu yn y lleoliad cychwynnol.
I orffen noson ddiddorol, addysgiadol a hwyliog, cawsom fwffe blasus tu hwnt oedd wedi ei baratoi gan Falmai.
Roedd awyrgylch braf yn ystod yr ymweliad gyda sawl aelod gan gynnwys Rod ac Alun yn adnabod Gareth a Falmai ac yn gyfarwydd â Llaeth y Llan. Diolchwyd i Gareth a Falmai gan Alun, yr Is-Lywydd. Noson allan i'w chofio!!!!



Alun, Falmai Rod a gareth

# Dadorchuddio Cadair a Choron Eisteddfod yr Urdd 2022

Mewn digwyddiad arbennig yn Llyfrgell Dinbych ar nos Lun 16 Mai, dadorchuddiwyd Cadair a Choron Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022. Roedd gohebydd Y Bigwn yno.

Roedd nifer sylweddol o bobl yn bresennol gan gynnwys cynllunwyr a noddwyr y Goron a'r Gadair wrth gwrs ond hefyd aelodau o bwyllgor gwaith a phwyllgor llên yr Eisteddfod.

Gan fod Heno yn darlledu'r noson yn fyw cychwynnwyd gyda cyflwyniad i'r noson gan Gadeirydd y Pwyllgor Llên a Phrif Lyfrgellydd y Sir, Bethan Hughes. Cafwyd datganiad o'r cywydd croeso gan Gwenan Mars Lloyd ac yna eitem gerddorol gan ddisgyblion o Ysgol Glan Clwyd.

Gan fod Heno yn ffilmio cymrodd Elin Fflur yr awenau i gyflwyno y gemydd Ann Catrin Evans o Gaernarfon, cynllunydd y goron. Ei braint hi oedd dadorchuddio ei champwaith.

"Gan ei bod hi'n ben-blwydd yr Urdd yn 100 oed eleni, wnes i ail-ddylunio'r goron oedd yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod 2020 er mwyn adlewyrchu hynny," meddai Ann Catrin. Dyma'r wythfed goron iddi ei dylunio yn ystod ei gyrfa, ac fe'i hysbrydolwyd gan dirlun amaethyddol Dinbych a'r cyffiniau ac offer o fyd ffermio.


"Rwy'n ferch fferm ac roedd y peiriant torri gwair 'Bamford Major' yn ysbrydoliaeth. Dw i wedi defnyddio deunyddiau cyferbyniol sy'n creu drama yn y goron – copr ac arian sterling yw'r prif ddeunyddiau, ac mae'r cap melfed a sidan coch hyfryd yn ategu at y ddrama. Mae'n goron fawreddog a dwi'n methu aros i'w gweld hi ar ben yr enillydd o fewn y mis."

Noddir y goron gan Gymdeithas Gymraeg Dinbych, a'r Ysgrifennydd Dilwyn Jones gafodd y cyfle i ddiolch i'r dylunudd. "pleser pur oedd cydweithio gydag Ann Catrin, er mwyn gwireddu eu gweledigaeth" meddai. "Yr oedd Cymdeithas Gymraeg Dinbych yn awyddus iawn i noddi'r Goron ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ond y mae Covid wedi gwneud i ni aros yn hir cyn cael llawn wireddu'r rhodd."
"Mae Ann Catrin Evans wedi bod yn ardderchog o'r cychwyn gan ddod atom a rhoi cyfle i ni fynegi ein syniadau ond yr ydym hefyd wedi elwa llawer o'i phrofiad a'i gallu a'i harweiniad doeth a gwybodus. Bu cydweithio hefo Ann Catrin yn bleser pur ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y Goron ar ben y llenor buddugol... gobeithio!"
Yna daeth tro Rhodri Owen o Ysbyty Ifan, dylunydd y gadair. Roedd cael creu cadair ar gyfer Eisteddfod canmlwyddiant y mudiad ieuenctid yn bwysig iawn iddo, yn ogystal ag adlewyrchu ardal yr Eisteddfod a'i phobl ifanc.
"Bu i gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd chwarae rhan fawr wrth feithrin fy nghreadigrwydd fel plentyn, ac yn ddi-os mae'r un peth yn wir am filoedd o blant eraill ar draws y wlad," meddai'r saer.
"Ro'n i am gofnodi canmlwyddiant yr Urdd mewn ffordd gynnil oedd yn berthnasol i'r ardal, felly mae'r marciau ar y gadair yn rhifo 100, ac yn sillafu Sir Ddinbych ar y ddwy ochor hefyd.
"Mae'r panel gwaelod ar ffurf rhai o fryniau Clwyd a'r marciau lliwgar ar y panel mwyaf yn dynodi ieuenctid bywiog yr ardal ar siapiau llif afon. Dwi'n gweld y lliwiau yma yn rhedeg drwy'r ffawydd fel yr Afon Clwyd yn tarddu o Hiraethog cyn rhedeg o un pen o'r Sir i'r llall."
Noddwyr y gadair yw Ysgol Uwchradd Glan Clwyd. Fel yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru, roedd dathlu twf a newydd-deb cenedlaethau newydd o Gymry yn rhan greiddiol o'r briff.
Meddai Siân Alwen, Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Glan Clwyd: "Ar ddathliad canmlwyddiant yr Urdd, pleser yw hi i gael noddi cadair Eisteddfod Sir Ddinbych eleni. Ein nod drwy gydweithio efo Rhodri oedd cyfleu bwrlwm yr ieuenctid yn yr ardal a'r llif o Gymreictod sydd i'w weld o un pen i'r dyffryn i'r glannau. Roedd lliw yn elfen bwysig wrth greu er mwyn dynodi ffresni ac irder ein pobl ifanc. Fel yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru mae dathlu twf a newydd-deb cenedlaethau newydd o Gymry yn parhau i ddod a gwefr ac yn cadarnhau ein pwrpas a'n gweledigaeth fel ysgol." Gorffennodd drwy ddefnyddio testun cystadleuaeth y Gadair sef 'Diolch' gan gyfeirio hynny at Rhodri wrth gwrs.
Yn ôl Siân Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau; "Mae'r newid i'r dyddiad wedi bod yn rhan o'r her i'n crefftwyr eleni, ac rydym yn hynod o ddiolchgar i Ann Catrin a Rhodri Owen am fynd ati i greu gwobrau mor drawiadol.

"Mae pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn edrych ymlaen at gael dychwelyd i'r Eisteddfod eleni ac i fwynhau'r hyn sydd gan yr ŵyl a'r ardal arbennig hon i'w chynnig. Gobeithio y bydd teilyngdod, fel bod y ddwy wobr yn cael eu mwynhau mewn cartrefi am flynyddoedd i ddod."

(Lluniau ar y clawr ac ar dudalen 2)

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

**Siop Clwyd**

33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau

Crynoddisgiau a Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# Llyfrgell Jig-so

Bydd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn lansio llyfrgell jig-so newydd sy'n gyfeillgar i ddementia ym Mai.

Mae gennym ddewis o bosau jig-so ar gael i'w benthyg gyda cherdyn llyfrgell, fel y byddech yn benthyg llyfr. Cadwch y pos jig-so am dair wythnos a'i adnewyddu os ydych ei angen am fwy o amser. Mae gennym ddewis da, felly ar ôl ichi gwblhau un gallwch ei newid am un arall.

Mae'r posau wedi cael eu dylunio i oedolion ac mae rhai sy'n cynnwys 35 darn a rhai gyda 1000 o ddarnau, ac mae gennym ddewis o bosau darnau mwy, sydd yn haws i bobl gyda medrusrwydd cyfyngedig. Mae posau jig-so yn annog sgyrsiau a hel atgofion, ac yn ysgogi'r ymennydd. Maent hefyd yn wych ar gyfer ymlacio a chael gwared ar straen.

Dewch draw i'ch llyfrgell i gael golwg ar y casgliad.

**Eisteddfod Yr Urdd Sir Ddinbych 2022**






Braint oedd cael croesawu cynulleidfa i Lyfrgell Dinbych yn ddiweddar i noson arbennig i ddadorchuddio cadair a choron yr Eisteddfod, darlledwyd y digwyddiad yn fyw ar gyfer rhaglen Heno. Llongyfarchiadau i Rhodri Owen ac Ann Catrin Evans ar eu crefft a'u hysbrydoliaeth yn creu darnau celfydd fydd yn wir werth eu hennill.

# Gŵyl Tŷ Gwyrdd

Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ganol Haf Dinbych bydd y Tŷ Gwyrdd yn cynnal eu Gŵyl eu hunain. Diwrnod a noson yn llawn o ddigwyddiadau ar y 18ed o Fehefin. Bydd yn ddathliad o gynhyrchwyr a gwneuthurwyr lleol. Bydd yn cynnwys cerddoriaeth, celf, bwyd, coginio Eidalaidd, ioga, fforio am fwyd a phob math o gyflwyniadau eraill.


Yn ystod yr ŵyl hefyd bydd Cynulliad Y Bobl cyntaf Dinbych yn cael ei gynnal yn Eirianfa. Bydd yn trafod 'Sut gallwn ni gryfhau ein rhwydweithiau bwyd lleol' Bydd yn gyfle i drafod cefnogi ffermwyr a thyfwyr bwyd lleol, gwneud gwell defnydd o fwyd dros ben a lleihau gwastraff ac annog y gymuned i dyfu eu bwyd eu hunain. Dewch â'ch syniadau. Bydd man chwarae i blant ar gael. I gofrestru ewch i https://cy.ytygwyrdd.cymru/ neu Facebook ytygwyrdd.

Bydd sawl lleoliad i'r ŵyl gan gynnwys Neuadd y Dref, Eirianfa, Tafarn y Guildhall ac wrth gwrs Y Tŷ Gwyrdd ei hun yn y Lôn Gefn.



**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

# Cylch Llenyddol

**Porth y Nef?**

Cafwyd chwip o noson yn ddiweddar i gau pen y mwdwl ar dymor cyfredol y Cylch Llenyddol wrth i'r Athro Jason Walford Davies ddod atom i drafod llyfr y diweddar Peter Hope Jones ac R S Thomas, 'Between Sea and Sky – the Images of Bardsey'. Dyma lyfr a gyhoeddwyd gan wasg Gomer, sy'n cynnwys ffotograffau gwreiddiol a dynnwyd gan Peter Hope Jones ar Ynys Enlli, ynghyd â phytiau o gerddi R S.


Mae'r Athro Jason Walford Davies yn bennaeth Canolfan Ymchwil R S Thomas ym Mhrifysgol Bangor, yn brifardd wedi iddo ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn 2004 mewn cystadleuaeth dynn ac uchel iawn ei safon, ac yn awdur "Gororau'r Iaith – R S Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg. Erbyn hyn, mae'r Ganolfan Ymchwil yn geidwad holl weithiau cyhoeddedig R S Thomas, yn ogystal â nifer o drysorau eraill sy'n gysylltiedig â'i waith ynghyd â darnau niferus o waith ei wraig, yr arlunydd enwog, Elsi Eldridge.

Bydd unrhyw un sydd wedi ymweld ag Enlli erioed neu'n caru cerddi R S Thomas wrth eu boddau efo'r llyfr llawn perlau hwn sy'n cyplysu lluniau trawiadol efo llinellau bachog o waith y bardd, a ddewiswyd gan Peter Hope Jones ei hun o holl gerddi y bardd toreithiog.

Mae rhaglen gyffrous ac amrywiol wedi ei threfnu gan y Cylch ar gyfer 2022/23. Bydd y tymor newydd yn cychwyn nos Lun, 3 Hydref ,gyda darlith gan yr awdur a'r llenor lleol, Norman Closs Parry. Pwnc y noson agoriadol fydd 'Einion – Bardd "Triongl oedd fy Milltir Sgwar"', sef y Prifardd Einion a fagwyd yn Nhreffynnon ac a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Llangefni yn 1983.

Cynhelir y darlithoedd am 7 o'r gloch yng Nghapel Trefnant LL16 4UP. Cewch ddod i'r holl ddarlithoedd yn ystod tymor 2022/23 am £15 trwy brynu rhaglen neu mae croeso i unrhyw un ddod i ddarlithoedd unigol am £4 y pen. Yn ogystal â Norman Closs, byddwn yn croesawu Penri Jones, Elfyn Llwyd, Dr Eiddwen Jones, Yr Athro Deri Tomos a Meinir Pierce Jones yn ystod y tymor nesaf.

Cafodd yr aelodau hefyd gyfle i ddewis enw newydd i'r Cylch. Wedi pleidlais ar dri chynnig, penderfynwyd ar Cylch Llenyddol Glannau Clwyd.



Chwith i'r dde Yr Athro Jason Walford Davies, John Eric Hughes (Cadeirydd), a Meurig Owen, sy'n ymddeol fel Ysgrifennydd y Cylch wedi pum mlynedd ar hugain

**GWYL RHUTHUN 2022**
**TOP DRE**

**DyddSadwrn : 2il o Orffennaf**
**Sgwar San Pedr**

**1y.p. tan 8y.h**

**Dafydd Iwana'r Band**
**Band Pres Llareggub**
**Alys Williams**
**Morgan Elwy Band**
**Seindorf Dur Pantonic**
**Cor Aelwyd Dyffryn Clwyd**
**Ysgolionlleol**
**a llawermwy!!**


Mynediad: £5, plant am ddim

**HUW VAUGHAN JONES**

**Arlunydd,Cartwnydd**

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
**01745 812184**

**MALDWYN WILLIAMS**
Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542

DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 5

**Pumed diwrnod o daith Llwybr y Llechi**
**Cerdded o Croesor i Llan Ffestiniog drwy Blaenau Ffestiniog**
**Croesor i Tanygrisiau** 7.4km, 4.6milltir

**Cwmorthin**
Mae Cwmorthin yn dipyn o "Ghost Town" yn ei ffordd ei hun, hen weithfeydd, hen lefydd i aros wedi mynd yn adfail, hen gapel a rhyw naws ysbrydol os nad oes ysbrydion yno hefyd. Fel petai rhyw adlais o'r hen ganu yn sibrwd drwy'r lle. Ysbryd y tragwyddol Dduw disgyn arnom ni. Wedyn ffwrdd â ni am Tanygrisiau.




Mynediad i'r hen gapel, Cwmorthin

**Tanygrisiau**
Yn Nhanygrisiau mae cofnod ar dai i'r rhai hynny a godwyd o dai chwarel sy'n fawrion cenedl fel Merêd a Gwyn Thomas ac eraill mae'n siwr. Pobl wedi eu codi o'r werin a rhywsut felly gyda eu traed ar y ddaear drwy eu hoes, eu traed ar ddaear lechi oedd yn sicrhau rhyw urddas yn eu cerddiad a'u hymwneud â'r byd.



Dr. Meredydd Evans



Dr. Gwyn Thomas

**Tanygrisiau i Llan Ffestiniog**
8.6km, 5.4milltir

**Blaenau Ffestiniog**

Mae'r llechi fel papur wal
O amgylch waliau mynyddoedd y dre,
Yn codi yn domenni gwastraff uchel a llwyd
Er cof am ddiwydiant llewyrchus dros ben
A dyllwyd o grombil hen lechweddau'r lechen las.
Nid rhyfedd fod pob dim yn adlewyrchu llwydni'r lle,
Y toeau, y creigiau, y niwl dop, y gwynt a'r glaw,
Fel Caer fawr fynyddig a'r tomenni yn fur
O amddiffyniad sy'n creu hunaniaeth cryf
Drwy'r gymdeithas hon lle bu cabanau gynt
Yn rhannu diwylliant holl weithiwyr y graig,
Lle bu capeli yn orymdaith ar stryd
Yn chwifio baneri cymanfa fawr
Ac o graig i graig mae atgofion gynt
Yn eco o lechwedd i lechwedd drwy y cof.
Bywyd caled, clên, cymuned di-lol a chlos,
Didostur weithiau ac eto'n llawn o hwyl
A thra bo caledi yn ein caledu ni
Mae atgofion melys o gwmpas y fro
A'r lechen las yn cadw'r glaw o'r tŷ.

**Lewis Glyn Cothi**

Allan o gyd-destun neu be ond prynais gyfrol swmpus, drwm o'i waith yn siop Yr Hen Bost, Blaenau. Siop sy'n ddigon o ryfeddod, yn orlawn o gyfrolau hen a newydd, gwych iawn. Yr unig fistêc gyda chyfrol Lewis Glyn Cothi oedd bod angen ei chario yn y rycsac i lawr Cwm Bowydd ac yn ôl i fyny i Lan Ffestiniog, sôn am drwm ar ddiwedd taith. Roedd hynny yn ei hun yn haeddu gwahoddiad i'r Orsedd! Neu efallai dyliai cario ei waith dros bant a bryn fod yn anghenraid i ddod yn aelod o'r Orsedd! Ta waeth, yr oedd y Gwaith yn wych, bron chwe chanrif oed ond yn hynod ddealladwy, mwy felly na nifer o feirdd heddiw sy'n rhyfeddol a dweud y gwir. Lewis Glyn Cothi Rŵls!

**David James,**
**Bron Gadair,**
**Llan Ffestiniog**

Dyma i mi yw darlun perffaith o chwarelwr diwylliedig, gwâr, blaenor yng nghapel Peniel, Llan Ffestiniog pan oedd fy nhad yn weinidog yno. Cymwynaswr, dod â'i ysgol, trwsio to… am ddim. Yn troi glo mân yn glapiau ac yn osgeiddig ar ei draed ac yn ei gorff ond yn cael trafferth anadlu ar brydiau oherwydd yr hen lwch yna. Yn eiddil ond yn galed, yn wan a chryf ar yr un pryd. Mawr fy mharch ato. Cefn i fy nhad dwi'n siwr. Overalls, cefn, clên, overôls.

**Arwel Emlyn**



TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar facebook flickr Cwmulus https://cwmulus.org/



Mae wedi bod yn braf i groesawu mwy o ymwelwyr yn ddiweddar, yn arbennig rhai brwdfrydig sydd yn dod i'r dref yn unswydd i ymweld â'r Amgueddfa. Llwyddodd dau ddyn o Fanceinion i'n cyrraedd ni ar eu trydedd ymgais, ar ôl cael eu rhwystro ddwy waith gan Cofid. Byddant yn dychwelyd â grwp o aelodau o'r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg yn fuan. Hwb fach i dai bwyta'r dref, gobeithio.

## Profiad personol o'r radio

Diolch i Vesi Jones am rannu ei hatgofion o wrando ar y radio:

"Atgofion Radio a Darlledu
Fy atgof cyntaf o wrando ar y radio yw gwrando ar set falfiau fach Bakelite Philips yn Plovdiv, Bwlgaria, lle tyfais i fyny yn y 50au a'r 60au. Roedd Awr y Plant ar foreau Sul yn adloniant ac yn gynnwrf wrth adrodd storïau a dramâu. Roedd fy chwaer fach a finnau wrth ein boddau â'r awr hon a byddem yn edrych ymlaen i glywed y storïau antur bob wythnos. Weithiau byddem yn creu'r amgylchedd efo cadeiriau, blancedi a chlustogau wrth i ni wrando a symud i fyd y dychymyg. Roedd hyn i gyd yn digwydd wrth i Mam baratoi'r cinio dydd Sul.

Roedd y profiadau cynnar yma o wrando ar y radio ac ar gerddoriaeth a rhaglenni poblogaidd yn ein gwneud yn ymwybodol o'r byd tu allan i'n cartrefi. Roedd fy nhad yn hoffi opera ac yn canu ei hoff arias efo'r cerddorion ac, wrth gwrs, roeddwn innau, fel plentyn, yn mwynhau'r adegau yma o rannu ei bleser/ fwynhad o gerddoriaeth.

Roedd David, fy ngŵr, hefyd yn frwdfrydig am y radio. Fel hogyn ifanc, roedd yn adeiladu, datgymalu, ac yn arbrofi efo radios ac roedd yn gwrando ar orsafoedd radio o gwmpas y byd. Mae'r cardiau QSL a gasglodd fel gwrandäwr ar orsafoedd tramor erbyn hyn yng nghasgliad memorabilia Gwefr heb Wifrau. Cyneuodd y diddordeb yma mewn darllediadau radio ei gariad at deithio. Ble bynnag yn y byd y digwyddom fod, roedd y radio transistor bach a gariai efo fo trwy'r adeg, yn rhoi newyddion y BBC i ni a byddem yn teimlo yn agos at gartref.

Erbyn hyn, ac ers llawer blwyddyn, Radio 3 a 4 y BBC ydy fy nghyfeillion yn y tŷ. Mae'r radios sy ym mhob ystafell wedi eu tiwnio i mewn i fy hoff orsafoedd fel nad wy'n colli unrhyw ddarllediad! Ie, hen ffasiwn yn wir, ond dw i'n dal i fwynhau'r radio."

**Oes gennych chi atgofion o wrando ar y radio? Fasech chi'n fodlon eu rhannu, os gwelwch yn dda?**

## Digwyddiadau

Ddiwedd Mis Ebrill bu Myrddin ap Dafydd, Archdderwydd Cymru, yn sgwrsio am bwnc amserol iawn, **Canrif yr Urdd**, yn y ddarlith ddiweddaraf yn ein cyfres ar-lein. Ffrwyth ymchwil yn ystod y cyfnod clo oedd hon ar gyfer llyfr gafodd ei gomisiynu gan yr Urdd. Mae crynodeb o'r sgwrs wedi ei gyhoeddi yn y rhifyn hwn o'r Bigwn.

Diolch i bawb a gefnogodd y ddarlith, yn arbennig Menter Iaith Sir Ddinbych, a chronfa budd cymunedol Gwynt y Brenig a noddodd y cyfieithu ar y pryd. Braf iawn oedd medru croesawu gwrandawyr o'r Wladfa!

## Eitemau o'r casgliad







Dyma enghreifftiau o gardiau QSL a fyddai'n cael eu hanfon gan amaturiaid radio neu ddarlledwyr at wrandawyr oedd wedi cysylltu i ddweud eu bod wedi clywed eu darllediad. Ystyr 'QSL' yn iaith yr amaturiaid radio yw "Wnewch chi gadarnhau eich bod wedi derbyn y darllediad, os gwelwch yn dda?" Cyflwynwyd y rhain i'r Amgueddfa gan Dr. Goronwy Alun Hughes, Cerrigydrudion, oedd yn amatur radio ac yn gyfaill da i Gwefr heb Wifrau

## Y ddarlith nesaf

Dyma'r ddarlith ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru:

Ar Mehefin 17eg, bydd Howard Huws, Ysgrifennydd Cymdeithas Ffynhonnau Cymru a golygydd 'Llygad y Ffynnon', yn cyflwyno darlith Gymraeg, **Ffynhonnau Carpiau Cymru**. Mae cannoedd o ffynhonnau sanctaidd yng Nghymru, ac mae wedi bod yn arfer gadael carpiau gerllaw, neu yn, nifer fechan ohonynt. Bydd y ddarlith yn bwrw golwg ar y dystiolaeth hanesyddol, yn cloriannu'r honiadau bod 'na gysylltiad â phaganiaeth neu Geltigiaeth ac yn edrych ar arwyddocâd adfywio'r arfer ers diwedd yr ugeinfed ganrif.

## Ymweld â'r Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 10.00 – 16.00, ac ar unrhyw adeg arall drwy drefnu apwyntiad. Cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

Croeso cynnes i bawb.

**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr ychwanegol i'n cynorthwyo ni i agor yn rheolaidd. Nid oes angen arbenigedd technegol. A fyddai gennych chi ddiddordeb, os gwelwch yn dda?**

# Canrif yr Urdd

*Crynodeb o sgwrs gan Myrddin ap Dafydd a draddodwyd fel rhan o gyfres Cwmulus a drefnir gan amgueddfa Gwefr heb Wifrau. Mae'n seiliedig ar ffrwyth ymchwil a gomisiynwyd gan yr Urdd ac a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law. Diolch i Myrddin am ganiatâd i gyhoeddi'r crynodeb byr hwn. Seiliwyd y crynodeb ar gopi a dderbyniwyd gan Myrddin felly mae ambell bwynt na gafodd Myrddin gyfle i'w gwneud yn ystod y sgwrs ar-lein ond y teimlwn eu bod yn werth eu cynnwys yma.*




Bu Ifan ab Owen Edwards yn astudio a darlithio mewn hanes ond wynebu'r dyfodol yr oedd bob amser a dyna fydd y sgwrs hon hefyd.
Cafwyd parti cofiadwy canmlwyddiant y mudiad ym mis Ionawr. Cyhoeddwyd bod 4 miliwn wedi cymryd rhan ers y dechrau

Erbyn hyn mae'r Urdd :

* gyda 55,000 o aelodau gyda'r rhelyw yn cymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol
* yn cynnig cyfleoedd ym myd y campau i bawb
* yn lledaenu ysbryd o rannu cyfrifoldeb ac anelu at gydraddoldeb ar draws ffiniau drwy y gwaith dyngarol
* yn ddarparwr prentisiaethau Cymraeg mwyaf.
* yn un o'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol mwyaf yn Ewrop.



Adran gyntaf yr Urdd yn Treuddyn

Sut yr esgorodd llythyr un dyn ar y fath fudiad cenedlaethol a dylanwadol?
Cymerodd Ifan ab Owen awenau Cymru'r Plant yn dilyn marwolaeth ei dad yn 1920. Yn Ionawr 1922 ysgrifennodd: Beth a wnawn ni, Blant Cymru, i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw? ... Fe sefydlwn Urdd newydd, a cheisiwn gael pob Cymro a Chymraes o dan ddeunaw oed i ymuno â hi…

Dyma rai o ymgyrchoedd cynnar yr Urdd:

| | |
|---|---|
| 1923 | Deiseb llwyddiannus 7000 o blant a phobl ifanc yn erbyn boddi Glyn Ceiriog. |
| 1922 | Blwyddyn sefydlu Iwerddon Rydd a dyma ofyn y cwestiwn yn y cylchgrawn: A ddylai Cymru gael annibyniaeth? |
| | Hyrwyddo dathlu Gŵyl Ddewi a defnyddio'r Ddraig Goch. |
| 1924 | Neges Heddwch ac Ewyllys Da. |
| 1928 | Gwersyll haf cyntaf |
| 1929 | Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gyntaf |
| 1932 | Mabolgampau cyntaf |
| 1933 | Mordaith i Norwy |

Llawer o weithgareddau - ond digon o hwyl hefyd:
Gwersylla mewn pebyll a safonau coginio sigledig. Roedd un cogydd dibrofiad wedi holi pa mor hir oedd angen berwi'r wyau ac wedi cael yr ateb: 3 munud. Penderfynodd berwi'r 80 wy i gyd gyda'i gilydd am 240 o funudau!
Roedd yr Aelwydydd, fel y Gwersylloedd, yn fannau cyfarfod ac yn fannau cael cariadon. Yno y cyfarfu Dic Jones â Jean ei wraig. Yn ei

Ffugient mewn bws gwsg yn gall,
Ar hwyr awr troi'r ffor' arall
O seti'r gwt a stŵr gwyllt
Awr garu'r adar gorwyllt,
Yna gweld yn un ac un
Priodi'r parau wedyn.

Mae sawl argyfwng wedi effeithio ar yr Urdd ond mae'r mudiad yn ymateb yn gadarnhaol bob tro.

- Yr Ail Ryfel Byd - bu'n rhaid diswyddo gweithwyr a chau Gwersyll Llangrannog - yn fuan wedi'r rhyfel, prynu Glan-llyn
- Thatcher yn tanselio'r athrawon yn 1980au yn arwain at streic Athrawon - sefydlwyd Cwmni Theatr Cenedlaethol yr Urdd yn nyddiau Thatcher.
- Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001 - y Gwersylloedd yn wersylloedd 12 mis y flwyddyn wedi gwasgfa'r clwy i roi sail ariannol cadarn i'r mudiad.




Roedd un argyfwng yn fwy Cymreig na'r lleill – Arwisgo 1969, seremoni wleidyddol i danseilio'r twf mewn Cymreictod. Roedd gwahaniaethau mawr rhwng dealltwriaeth a dull o weithredu'r to iau a'r to hŷn. Daeth y gwrthdaro i'r amlwg yn rhengoedd yr Urdd. Gwnaed penderfyniadau amhoblogaidd gan rai arweinwyr hŷn y mudiad.

Rhaid oedd datrys yr argyfwng a symud ymlaen drwy gael gweledigaeth newydd. Cafwyd hynny gan gyfarwyddwyr a aelodau staff newydd yn y 1970au a'r 1980au.

Roedd Brwydr Stamp y Dathlu yn un arwyddocaol. Gwrthododd Bwrdd y Llythyrdy gais am stamp i nodi hanner- canmlwyddiant yr Urdd. Bu Aelodau Seneddol, awdurdodau lleol a chyrff eraill yn lleisio protest yn ofer. Cynhyrchwyd stamp 'answyddogol' a gwerthwyd can mil ohonynt. Rhagflas o ysbryd newydd – Un o'r pethau cyntaf a wnaeth J. Cyril Hughes fel cyfarwyddwr oedd trefnu cynhadledd o fudiadau oedd yn ymgyrchu am Gomisiwn Iaith. Ymateb Ysgrifennydd Cymru oedd sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg.

Dros y blynyddoedd nesaf

* galw am i Gymry gael eu cynrychioli yn yr Eurovision
* protestio yn erbyn taflenni uniaith Saesneg arian degol.
* galw am well rhaglenni Cymraeg i blant a phobl ifanc.
* pwyso am gael cwricwlwm addysg Cymraeg a Chymreig.
* trefnu Cynhadledd Genedlaethol i alw am Ddeddf Iaith.



Yn ogystal ag ailafael yn ei rôl fel llais gwleidyddol, roedd yr Urdd yn moderneiddio'i chylchgronau a'r adloniant ac efallai yn fwy na dim – creu Mistar Urdd! Aeth gonc Mistar Urdd i'r Orsaf Ofod Ryngwladol hyd yn oed.

Gwnaeth y mudiad gyfraniad arbennig wrth osod sylfeini sawl sefydliad.

Ymgyrch Lyfrau yr Urdd oedd cychwyn y Cyngor Llyfrau.

Bu gwaith arloesol Syr Ifan yn y byd ffilm yn hynod o bwysig gyda mentrau fel y ffilm sain, y Chwarelwr. Meddai Ifor ap Glyn, "mae modd olrhain S4C a'n holl ddiwylliant ffilm a theledu Cymraeg yn ôl i'r ffilm gyntaf hon."

Syr Ifan sefydlodd yr Ysgol Gymraeg gyntaf.

Yr Urdd ddechreuodd adloniant awyr agored drwy'r Gymraeg yn trefnu teithiau cerdded mynydd ac yna datblygu cyrsiau canŵio, hwylio a mynydda.

Ai yn y gêm rygbi Jiwbilı 50 mlynedd yr Urdd oedd y sylwebaeth Gymraeg fyw gyntaf ar gêm rygbi ar y teledu?

Bu'r Urdd yn arloesol yn hybu Dysgwyr gyda'u chylchgronau, dosbarthiadau a chyrsiau yn y gwersylloedd.

Dysgwr a gafodd gyfle euraidd gan yr Urdd oedd Jim O'Rourke a benodwyd i swydd Trefnydd yr Urdd yn sir Benfro er nad oedd yn rhugl. 'bedydd tân go iawn!' meddai Jim.

Bu'r Urdd hefyd yn ddechrau i ganu cyfoes yn Gymraeg. Cafodd Dafydd Iwan waith haf yng nghegin Glan-llyn a bu'n diddanu gyda'r nos. Meddai 'Mae'n rhyfedd o beth, mai yn Saesneg y cychwynnais fy ngyrfa. - Roedd rhywbeth anghydnaws mewn canu yn Saesneg yn y fath le felly dyma fynd ati i gyfieithu, a chanfod bod cytgan Gymraeg Edward… 'Mae'n Wlad i Mi' yn gorwedd yn hapus iawn ar alaw enwog Woody Guthrie. Glan-llyn oedd y lle naturiol i do newydd o gerddorion Cymraeg ymarfer eu doniau – 'Dewi Pws, Heather Jones, Huw Jones, Delwyn Siôn, Edward a finne.'




Yn 1911, gwelwyd fod y Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghymru (43.5%). Ar hyd gweddill y ganrif roedd dirywiad cyson ond yn ystod Canrif yr Urdd, gosodwyd sylfeini adferiad yr iaith a phan gyhoeddwyd canrannau iaith Cyfrifiad 2021 y calondid oedd fod y ffigwr wedi codi i 29%. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at Ail Ganrif yr Urdd.

# Atgofion o weithgareddau'r

Er nad ydw i wedi cael cymaint a hynny o gysylltiad gyda'r Urdd ar ôl gorffen bod yn aelod yn 25ain oed bu'r mudiad yn hynod o bwysig i mi yn fy nyddiau fel plentyn a pherson ifanc. Fyddwn i ddim y person ydw i heblaw am yr Urdd.

Fy nghof cyntaf o unrhyw gysylltiad a'r Urdd yw mynd fel teulu i aros yng Ngwesty'r Urdd, Pantyfedwen, Borth ger Abersytwyth. Wythnos fendigedig bob haf am 5 mlynedd pan oeddwn rhwng 5 a 10 oed. Gwesty'n llawn o Gymry Cymraeg, nosweithiau llawen ac ati pob nos i'r oedolion a chawsom ninnau fynychu ambell un pan oeddem ychydig yn hyn. Gwnes lawer o ffrindiau o bob rhan o Gymry. Ffordd i ddod i ddeall mai un gwlad ydym ac i arfer clywed y gwahanol dafodieithoedd. Bu gwersylloedd yr Urdd hefyd yn rhan o'r broses hynny sy'n arwain fi at yr atgof nesaf.



Ar y Traeth ger Pantyfedwen. Finnau ar gefn mul yny cefn

Bum yn wersyllwr yn Llangrannog a Glanllyn ond dwi'n credu mai Glanllyn gafodd y dylanwad mwyaf arnaf gan fy mod yn hanner byw yno yn fy arddegau. Gwersylloedd Haf, cyrsiau penwythnos yn dringo, canwio ac ati, gwersylloedd Calan a phenwythnosau Aelwydydd Sir Ddinbych dan arweiniad Alwyn Williams oedd yn Drefnydd Sir i'r Urdd yr adeg hynny. Bu rhai o'r pethau a ddysgais ar gyrsiau Glanllyn yn rhoi pleser i mi am flynyddoedd. (Na – am y cyrsiau swyddogol dwi'n sôn!) Bum ar gwrs ffotograffiaeth un gwersyll Calan gyda'r diweddar naturiaethwr Ted Breeze Jones yn hyfforddi ynghŷd â Iolo ap Gwynn a Dei Tomos. Bu ffotograffiaeth yn brif ddiddordeb i mi am flynyddoedd wedyn. Iolo a Dei hefyd oedd yn hyfforddi ar rai o'r cyrsiau cerdded a dringo ac unwaith eto bu rhain yn ddiddordebau i mi am flynyddoedd. Rhoddais y gorau i ddringo a rhaffau achos roedd y criw o Lanrwst wedi cario ymlaen pan es i i'r coleg ac wedi dod yn llawer mwy medrus na mi ond dwi'n dal wrth fy modd yn crwydro mynyddoedd. Tydi tystysgrif dechreuwr mewn canwio ddim yn golygu llawer mewn gwirionedd ond dwi'n wirion o falch bod gen i un! Unwaith eto bum yn canwio am rai blynyddoedd ar ôl dilyn y cyrsiau dan arweiniad Ieus. Roedd Dei Tom yn ei gynorthwyo o hefyd, dyn amryddawn! Ymunais a chlwb canwio yn y coleg ond yn anffodus roedd yr aelodau eraill yn treulio pob Dydd Sadwrn yn canwio yn ogystal ac un noson yn ystod yr wythnos yn y pwll nofio yn ymarfer sgiliau– roedd gen i ddiddordebau eraill hefyd a felly rhoddais y gorau iddi.

Gwnes gymaint o ffrindiau yng Nglanllyn a dwi'n dal mewn cysylltiad a llawer ohonynt. Cofiaf griwiau o Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Morgan Llwyd yn arbennig. Hefyd criwiau o Aberystwyth ac o Langefni. Mae rhai o'r ffrindiau hynny bellach yn byw yn yr ardal hon fel Lynn Rhys (Aberystwyth) a Leah Owen (Llangefni). Mae'r byd Cymreig yn un digon bychan weithiau yn tydi? Wrth gwrs roedd rhywun yn dod ar draws llawer o'r un rhai wedyn yn y Coleg neu mewn Steddfod a'r gyfeillgarwch yn parhau. Dwi'n cofio fod criw Wrecsam a chriw Llanrwst wedi trefnu i wersylla gyda'n gilydd yn Eisteddfod Hwlffordd yn dilyn fy ngwersyll haf olaf cyn mynd i'r coleg. Dwi ddim yn cofio eu henwau i gyd erbyn hyn ond roedd Rhodri Glyn Thomas (y cyn aelod o'r cynulliad), ei frawd Huw (gohebydd moduro) a Nia Ceidiog yn eu mysg. Roedd rhywun hefyd yn dod i adnabod brodyr a chwiorydd iau rhai o'n ffrindiau gwersyll. Dyna sut y des i adnabod Ceidiog Hughes fel brawd Nia. Bu Ceidiog a minnau yn weision priodas i'n gilydd.



Dawns yn y Aelwyd. Hilary Hughes (Jones gynt) sydd yn byw yn Ninbych sydd ar y chwith. Mae ei brawd, Ithel, fu hefyd yn byw yma, yn y llun tu ôl i Ian Jenkins ar y blaen (bydd rhai ohonoch yn adnabod Ian fel cyn gynghorydd yn Sir Conwy)

Soniais uchod am benwythnosau Aelwydydd ond, wrth gwrs, roedd yr Aelwyd ei hun yn bwysig hefyd. Bum yn aelod o ddwy Aelwyd wahanol sef Llanrwst a Dinbych. Am gyfnod roedd yr Aelwyd yn Llanrwst yn cyfarfod yn yr hen orsaf heddlu oedd wedi ei throi yn ganolfan ieuenctid. Mi roedd rhai yn cystadlu yn yr eisteddfodau ond dwi'n credu fod mwy o bwyslais yn Aelwyd Llanrwst ar gymdeithasu. Roeddem yn cyfarfod unwaith yr wythnos i chwarae tenis bwrdd, pêl-droed pen bwrdd ac ati yn ogystal a gweithgareddau mwy ffurfiol. Amser Da.

Does gen i ddim talentau eisteddfodol, felly fues i ddim



*Heic a Hop - Criw o'm hoedran i o Ysgol Dyffryn Conwy Llanrwst. Lle oeddem ni'r bechgyn – yn cuddio yn y cefn efallai?*



yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd o gwbl. Serch hynny mae cof gen i o ambell Eisteddfod ac yn arbennig Eisteddfod Llanrwst 1968. Bythgofiadwy oedd y daith gerdded Heic a Hop i Lansannan i godi arian i'r Eisteddfod. Criwiau yn cerdded o sawl cyfeiriad, Dinbych, Abergele a Llanrwst a dawns i orffen y diwrnod yn y neuadd yn Llansannan. Mae casgliad o dros drigain o luniau'r newyddiadurwr Geoff Charles ar gael ar lein ar wefan Y Llyfrgell Genedlaethol ond methais ddod o hyd i un ohonom ni fechgyn Llanrwst er bod sawl un o enethod Ysgol Dyffryn Conwy yna. Dwi'n cynnwys un o'r rheiny a hefyd un o blant iau o Tanyfron a Bylchau gen eu bod yn fwy lleol i Ddinbych a dwi'n siŵr bydd rhai ohonoch yn eu hadnabod. Mae rhain yn cael eu cyhoeddi gennym dan drwydded Comin Creu (CC BY-NC-SA 3.0).

Hefyd cofiaf adeg Eisteddfod Llanrwst fod cystadleuydd yn aros gyda ni. Merch tua 14eg oed. Roedd hi'n cario cyllell gyda hi er mwyn tynnu Jaciau'r Undeb i lawr! Bydd llawer ohonoch yn ei hadnabod neu gwybod amdani ond wnâi ddim o'i henwi er dwi ddim yn meddwl y byddai ots ganddi.

Soniais uchod am daith Heic a Hop ond cofiaf hefyd am daith gerdded arall ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach pan aeth criw o 6ed dosbarth Ysgol Dyffryn Conwy ar daith o Fetws y Coed i'r Wybrnant. Taith dan faner yr Urdd oedd hon hefyd, er sgin i ddim co be yn union oedd yr achlysur. Ni'r disgyblion oedd wedi trefnu hon – dim son am athro yn agos.

Fy nghyfle olaf fel aelod i fwynhau gweithgareddau'r Urdd oedd ymuno ag aelwyd Dinbych ar ôl dod yma fel athro i Ysgol Glan Clwyd. Wrth gwrs roedd llawer o'r aelodau yn ddisgyblion yn yr ysgol fel doedd pethau ddim yr un fath ag yn Aelwyd Llanrwst. Roedd rhaid i mi fod yn athro parchus (neu o leiaf ymddangos felly!). Serch hynny mwynheais y cyfnod a chael cyfle i ddod i nabod nifer o bobl yn yr ardal.

Dyfrig





Heic a Hop – Plant Tanyfron a'r Bylchau



Taith i'r Wybrnant


# Ysgol Maes Garmon

**Hysbyseb Swydd**

**Cymhorthydd Gweinyddol**

i weithio yn swyddfa'r ysgol fel cyswllt cyntaf y cyhoedd, ymwelwyr a rhieni boed dros y ffon neu yn y dderbynfa.

Telerau'r swydd: 35 awr y rwythnos.
8.30yb - 4.00yp
: Graddfa gyflog Statws Sengl Sir y Fflint 4.2
£14,218 y flwyddyn
: Cytundeb amser tymor yn unig

**Dyddiad cau'r swydd: 15.06.2022**

Dylidffonio'rysgolar 01352 750678 am ragor o fanylion neu edrycharwefanEteach/ Cyngor Sir y

# Dwy gadair gyntaf Eisteddfod yr Urdd

Eleni bydd Urdd Gobaith Cymru yn dathlu canrif union ers ei sefydlu gan Syr Ifan ab Owen Edwards ym 1922.
Saith mlynedd yn ddiweddarach cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol gyntaf y mudiad yng Nghorwen.
Brodor a anwyd ac a fagwyd ym Mwlch Gwyn, Brynengan, Eifionydd oedd enillydd cadair gyntaf yr eisteddfod honno ac yntau yn aelod o Adran Ysgol Sir Pen-y-Groes – Hugh John Hughes.
Ychydig o fanylion sydd ar gael am natur y gystadleuaeth rhagor nad am farddoni y cafodd ei chynnig. Yn ôl a ddeëllir rhyw ffurf ar arholiad oedd y gystadleuaeth. Roedd ugain wedi cystadlu am y gadair ac o un marc yn unig yr enillodd H J Hughes y wobr. Syr Ifor Williams oedd y beirniad, ysgolhaig a gŵr gafodd gryn ddylanwad arno pan aeth yn fyfyriwr i Goleg y Brifysgol, Bangor yng nghanol y tri-degau. Yn ei feirniadaeth dywedodd Syr Ifor – 'ni ches yn fy mywyd gymaint o waith i bigo'r gorau'.




Y flwyddyn ganlynol cynhaliwyd yr eisteddfod yng Nghaernarfon ac unwaith eto H J Hughes aeth â hi. Dwy gadair gyntaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i fab ffarm o Eifionydd!
Aeth ymlaen i Fangor i astudio dan Syr Ifor Williams ac enillodd radd anrhydedd uchel yn y Gymraeg. Lladin oedd ei bwnc gradd ategol.
Roedd yn athro wrth reddf a bu'n bennaeth Adran y Gymraeg (a Lladin am gyfnod) ac yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Ramadeg Y Bermo ac yna yn Ysgol Ardudwy Harlech, o 1936 hyd 1976.





Roedd yn ŵr llengar a chyhoeddodd lyfrau ac erthyglau niferus ar amryfal agweddau ar lenyddiaeth Gymraeg. Roedd ei gyfrol Gwerthfawrogi Llenyddiaeth yn gaffaeliad mawr i ddisgyblion a oedd yn astudio'r Gymraeg yn yr ysgol uwchradd a'r colegau.
Roedd cywirdeb y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn hanfodol bwysig iddo. Roedd ei fagwraeth yng nghefn gwlad Eifionydd wedi sicrhau ei fod wedi ei drwytho yn nheithi ac idiomau cefn–gwlad ei ardal enedigol. Roedd Eifionydd yn rhan annatod ohono – wrth gael ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd dewisodd 'Dwyfach' fel ei enw barddol yn yr Orsedd.
Dwy gadair gyntaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i lanc ifanc o odrau mynydd Cennin. Tipyn o gamp!

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



"Blas o'r daith gyda Iolo Williams ar fore Sul hyfryd o wanwyn. Trefnwyd gan Menter Iaith Sir Ddinbych fel rhan o'r gyfres 'Ar Droed' gan Mentrau Iaith Cymru. Diolch am gydweithrediad y Ganolfan Dysgu Cymraeg. Diolch Iolo! A diolch i'r holl siaradwyr Cymraeg newydd am ymuno â'r daith. Mwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf."




J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

# Cymrawd newydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru



Llongyfarchiadau mawr i Dr Kathryn Jones, o Peniel, ger Dinbych, ar ei phenodi'n Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

Dywedodd Dr Kathryn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr IAITH "Bu'n fraint mawr cael y cyfle i gyfrannu i ddatblygiad y maes Polisi a Chynllunio Iaith yng Nghymru a thu hwnt trwy fy ngwaith gyda IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith dros y 23 mlynedd diwethaf. Rwy'n hynod o falch bod y gwaith yma wedi cael ei gydnabod trwy cael fy enwebu a'm derbyn i fod yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru."

Roedd Dr Kathryn Jones yn un o chwe deg chwech o Gymrodyr newydd gafodd eu hethol i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn ddiweddar. Mae eu harbenigedd yn amrywio o beirianneg awyrofod i hanes Ewropeaid Affricanaidd, microadeileddau seramig i'r ffidl Faróc, menywod mewn llawfeddygaeth i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a llawer o feysydd eraill.

Dywedodd **yr Athro Hywel Thomas**, Llywydd y Gymdeithas: "Mae gwybodaeth arbenigol ein Cymrodyr newydd yn rhagorol. Mae ystod yr ymchwil yn dangos bod Cymru mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau amgylcheddol, technegol, cymdeithasol, diwylliannol ac iechyd sy'n ein hwynebu.

"Mae gallu'r Gymdeithas i ddod â'r bobl dalentog yma at ei gilydd yn ein caniatáu i ddechrau a dylanwadu ar ddadleuon pwysig am sut mae Cymru, y DU a'r byd yn gallu llywio'r dyfroedd tymhestlog sydd o'n blaen heddiw.

"Rwy'n falch iawn bod 50% o'n Cymrodyr yn fenywod. Mae hyn yn dangos ein bod yn dechrau cwrdd â'n hymrwymiadau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae yna waith i'w wneud eto, wrth i ni weithio i sicrhau bod y Gymdeithas yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru, ond mae hwn yn gam pwysig."

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Wythnos Cymorth Cristnogol




Bu y Parch Andrew Sully yn cerdded Cymru i godi arian at Gymorth Cristnogol, gwelir ef (canol) yn cychwyn o Ddinbych i Henllan,Llanelwy, Rhuddlan i Bodelwyddan. Gyda ef y diwrnod hwnnw oedd John ac Anne Musgrave o Ddinbych.

## Y BIGWN

## YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnîau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

/gwasg.com PRINT

**ARGRAFFU**
**DYLUNIO GRAFFEG**
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Difyrion Digidol



Beic Ymarfer

Fe wnes i drafod yn y golofn ddiwethaf am y sesiynau hel atgofion y cynhaliwyd mewn cartrefi gofal cyn y pandemig. Y tro hwn dwi am drafod prosiect arall cyffelyb sef y beic digidol.

Fe wnaeth Marc Davies o raglen Cymunedau Digidol Cymru fynd ati yn wreiddiol i adeiladu beic trwy ddilyn cyfarwyddiadau ar YouTube.com (mae YouTube gyda llaw yn wasanaeth amhrisiadwy fel canllaw i ddatrys problemau, adeiladu neu drwsio pob math o bethau!)

Mae'r beic digidol yn gymharol hawdd i'w adeiladu sy'n cynnwys beic ymarfer cyffredin ail law, cyfrifiadur rheoli sylfaenol Arduino, cebls i'w gysylltu trwy USB, botymau i reoli cyfeiriad, a gliniadur. Nid yw'n gofyn am arbenigedd mewn technoleg i allu adeiladu beic o'r fath! Yn ychwanegol, mae angen sgrin fawr, gall hwn fod yn daflunydd neu deledu clyfar. Y nod gyda beic digidol yw ysgogi ymarfer corff a sbarduno'r meddwl. Mae'r beic wedi cael ei gysylltu i Google StreetView ar y gliniadur ac mae posib pedlo eich hun ar hyd ffyrdd a heolydd Google i bedwar ban y byd.


Y cwestiwn cyntaf sydd gennym i bawb cyn iddynt ddechrau seiclo, "Lle ydach chi isio mynd?" Mewn un cartref henoed, roedd un yn awyddus i bedlo ar hyd ffyrdd troellog arfordir dramatig yr Amalfi yn yr Eidal am ei bod yn mynd ar wyliau yno yn gyson dros y blynyddoedd. Yr oedd un preswyliwr arall am seiclo ar hyd Times Square Efrog Newydd!

Roedd rhai o'r preswylwyr yn byw gyda Dementia ac wrth ei bodd yn pedlo trwy ffyrdd cefn gwlad Ynys Môn yn hel atgofion am ei milltir sgwâr. Pedlo yn ôl i'w gorffennol i brofiadau hapus plentyndod - "Dyna'r man lle oedden ni'n lluchio cerrig i'r afon…. A dwi'n cofio mynd ar beic ar hyd y ffordd yma pan oeddwn i'n 8 oed". Roedd yr atgofion yn llifo ond roedd y corff hefyd yn cael ymarfer ar yr un pryd gan wella cylchrediad y gwaed. I breswylwyr sy'n dioddef o ddiffyg symudedd o ddydd i ddydd, mae'r beic digidol yn ffordd o gadw'r corff yn actif. Gyda'r preswylwyr yn gaeth i'r cartref, yr hyn sy'n wych yw fod y beic yn galluogi iddynt brofi mannau lle nad ydynt yn gallu ymweld yn gorfforol bellach.

Yn nechrau 2020, gyda fy nghydweithiwr Simon Jones, a ffisiotherapydd, Rakesh Kumar, cynigiwyd y syniad mewn cystadleuaeth ar gyfer Hacathon Iechyd Sefydliad Bevan ym Mharc Gwyddoniaeth MSPARC, Ynys Môn, ac fe ddaeth y syniad yn fuddugol gan ennill £7000 i ddatblygu'r syniad ymhellach. O ganlyniad, daeth y beic digidol i sylw'r genedl pan gafodd ei ffilmio ar raglen Heno yng Nghartref Gofal Hafan Cefni, Llangefni, Ynys Môn.

Yr ydym bellach wedi dechrau ailgyflwyno'r syniad i gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Ein bryd yw galluogi partneriaeth rhwng grwpiau cymunedol neu fyfyrwyr blwyddyn 11 ysgolion uwchradd lleol fel rhan o'r cwricwlwm i gydweithio i adeiladu beic ei hun ar gyfer cartrefi henoed. Gallwn fel rhaglen gynnig cyngor a chefnogaeth ar sut i adeiladu beic digidol a dangos sut y mae'r beic yn gweithio.

Os ydych chi'n athro neu'n athrawes mewn ysgol uwchradd neu'n gweithio mewn cartref gofal ac yn gweld cyfle yma i adeiladu beic a'i ddefnyddio mewn cartref gofal, gallwn eich rhoi ar ben ffordd, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop



Glinadur a'r Arduino



Y system ar waith

# PROFIAD DIGIDOL O SIOPA AR STRYD FAWR DINBYCH YN AGOR!

menter a busnes




Mae profiad arloesol o siopa wedi agor yn Ninbych a Wrecsam gan roi cyfle i gynhyrchwyr bwyd a diod Gogledd Cymru arddangos eu cynnyrch.
Menter fanwerthu newydd yw Ffenestr Siop, wedi ei ddarparu gan Menter a Busnes, i gynnig ffenestr siop ehangach i gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, a chyfle i gwsmeriaid gael mynediad hawdd at ddewis gwych o gynhyrchion, gyda phob un yn arddangos cod QR i hwyluso'r siopa.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn y cyfnod cyn y Nadolig yn 2020, mae'r prosiect hwn yn gweld cynnyrch lleol mewn dwy ffenestr siop ar Stryd Fawr Dinbych a Wrecsam, sy'n rhan o gynlluniau Caru Busnesau Lleol yn Ninbych a'r dathliadau Dinas Diwylliant yn Wrecsam.

Mae'r profiad siopa yn syml.
Pwyntiwch eich ffôn clyfar at y cod QR o ddewis

1. Cliciwch ar y cod QR

Prynwch o wefan y cynhyrchwyr. Prynwch i chi'ch hun neu anfonwch anrhegion at anwyliaid.

Dywedodd Charlotte Holliday, Rheolwr Datblygu Sector Bwyd Cywain "Mae'r ymateb gan gynhyrchwyr wedi bod yn wych. Bydd ugain o gynhyrchwyr yr ardal yn arddangos eu cynnyrch ac yn cael y cyfle i werthu i gwsmeriaid yn y modd arloesol hwn. Mae'r cynnyrch yn amrywio o siocled i seidir, ac o gaws i gacennau – rhywbeth at ddant pawb"
Meddai Rolant Tomos, Arweinydd Tîm Arloesedd a Mynediad i Farchnadoedd Newydd Cywain "Mae'n braf iawn gweld y ddwy siop yn agor yn Ninbych a Wrecsam. Mae'n gyfle i drigolion lleol gefnogi cynhyrchwyr lleol."
Dywedodd Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, Cyngor Sir Ddinbych: "Mae hwn yn gyfle gwych i arddangos cynnyrch lleol fel rhan o ymgyrch #CaruBusnesauLleol Cyngor Sir Ddinbych, sy'n annog siopwyr i gefnogi ein busnesau lleol.
"Mae ein masnachwyr yn darparu ystod eang o fwyd a diod o safon a gyda'r Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i Sir Ddinbych, mae hyn yn rhoi cyfle gwych i gyrraedd y rhai sy'n ymweld â Dinbych a'r sir gyfan."
Dywedodd Rheolwr Canol Tref Wrecsam, Rachel Cupit: "Rydym yn gyson yn chwilio am syniadau newydd ac arloesol i wella ein cynnig stryd fawr a phrofiad ymwelwyr. Mae cyfuno technoleg ddigidol a siopa wyneb yn wyneb mewn ffordd greadigol yn codi proffil cynhyrchwyr lleol, yn ogystal â chynyddu nifer yr ymwelwyr â'n hardaloedd siopa."
Bydd cyfle i chi ymweld â'r ffenest siop yn Wrecsam hyd Ionawr 2023, gyda'r prosiect yn Ninbych yn weithredol tan fis Gorffennaf.

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH

Siop lleol yn gwerthu cardiau, anrhegion a pethau vintage.

DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33






MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# Ysgol Twm o'r Nant

Mae'r tymor olaf 'ma yn brysur gwibio heibio, gyda'r disgyblion yn mwynhau cael mynd allan i'r haul cynnes i wneud gweithgareddau gan edrych ymlaen at ein Mabolgampau a Ffair Haf cyntaf ers dros dwy flynedd! Mae hi wedi bod yn hanner tymor eithriadol o brysur yma yn Ysgol Twm o'r Nant gyda'r Eisteddfod yr Urdd yn digwydd tafliad carreg I ffwrdd ar ddiwedd y mis. Mae deuddeg cystadleuaeth wedi bod yn llwyddiannus a fydd yn cystadlu ar un o lwyfannau'r Eisteddfod, Pob hwyl i bawb fu'n cystadlu ac yn cynrychioli'r Sir!

## Uned dan 5






Cawsom ymweliad hyfryd i lyfrgell Dinbych, cawsom helfa llyfrau, gwrando ar storiâu yn ogystal â dewis llyfrau i gael mynd adref gyda ni! Rydym yn edrych yn fawr am ymweliad arall yn fuan! Diolch yn fawr iawn i Staff y llyfrgell am y croeso!
Mae cyffro mawr yn yr Uned dan 5 wrth i ni aros am yr Eisteddfod yr Urdd. Rydym wedi bod yn brysur yn addurno ac yn creu ein cerrig Mistar Urdd.
Rydym wrthi'n brysur yn plannu yn ein ardal tu allan, aethom am dro i ganolfan arddio Greenfingers i brynu planhigion.

## Uned dan 7



**Cawsom amser arbennig yn ystod yr hanner tymor ar y thema 'Ar y gorwel.' Dechreuom ni gan deithio i wledydd gwahanol ac yna dysgom mwy am Kenya – rydym wedi bod wrth ein boddau!**
Mae'r plant wedi bod yn fentrus ac yn greadigol yn eu dysgu gan greu campweithiau celf, perfformio Siyahamba, ac animeiddio am anifeiliaid y Safana.
Dysgom ble yn y byd mae Kenya a sut mae bywyd yno. Hefyd cawsom gyfle i edrych ar arteffactau amrywiol gan bobl oedd wedi bod yn ymweld a Kenya.



Rydym yn edrych ymlaen yn arw am yr Eisteddfod ac wedi bod yn brysur iawn yn paratoi gan addurno yr ysgol.

## Uned dan 9



Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i blant yr Uned dan 9 dros yr wythnosau diwethaf. Penderfynodd y plant byddai thema yr Urdd yn ddiddorol gan bod yr eisteddfod yn dod i Ddinbych o'r diwedd.Mae'r plant wedi bod yn dysgu am hanes yr Urdd dros y 100 mlynedd diwethaf ac wedi gwneud nifer o dasgau amrywiol a diddorol. I gychwyn roedd rhaid casglu darnau arian man ar gyfer casgliad 'Dime Dinbych' - llwyddodd yr Uned i gasglu llond potel o arian a diolch yn fawr i bawb gyfrannodd i'r achos.
Mae Mr Urdd i'w weld ar hyd a lled yr ysgol erbyn hyn gyda'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn llawn gwaith lliwgar a diddorol. Cafodd pob un plentyn greu Mr Urdd pren eu hunain ac hefyd paentio trionglau pren i'w rhoi o gwmpas y safle.
Fel rhan o'r ymgyrch 'Cerrig Mr Urdd Eisteddfod 2022' paentiwyd nifer o gerrig i'w cuddio o amgylch y dref - tybed os ydych chi wedi dod o hyd i un ohonynt?
Aeth criw bach o blant o amgylch y dref i rannu posteri a llythyrau i'r busnesau lleol er mwyn annog pobl y dref i fynychu yr eisteddfod eleni ac i addurno ffenestri yn goch, gwyn a gwyrdd a daeth Mr Urdd i helpu!
Cafodd y plant wersi ymarfer corff yn llawn hwyl gyda Llio Jones o'r Urdd lle roeddynt yn gwneud gweithgareddau athletau - diolch yn fawr iawn i'r Urdd am roi y cyfle i'r plant.
Diolch yn fawr iawn hefyd i staff yr Uned ac i Mrs Wilks am weithio mor galed yn addurno safle'r ysgol gyda baneri a lluniau yn barod ar gyfer cystadleuaeth yr Urdd - mae'r lle wedi trawsnewid i liwiau coch, gwyn a gwyrdd! Yn wir mae nifer fawr o safleoedd ac ysgolion yn yr ardal yn edrych yn wych - mae'r holl ymwelwyr sy'n dod i'r Eisteddfod am gael gwledd i'r llygad.

**Uned dan 11**

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant beicio 'Bikeability' yn ystod y tymor a llwyddodd y cwbl i wneud yn ardderchog gan dderbyn Lefel 2, da iawn chi gyd ond ara' deg ar y ffyrdd!! Hoffwn Longyfarch y timPêl-droed Merched a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd yn ystod y tymor a pheidio colli gem! Da iawn wir! Cafodd y disgyblion Blwyddyn 6 fydd yn trosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd sesiwn TGCh yn yr Ysgol wrth ddefnyddio rhaglen Google i greu proffiliau. Cafodd disgyblion blwyddyn 5 weithdy celf gyda Ticky Lowe fel rhan o waith Ffrindiau Dementia cafodd y disgyblion hwyl yn creu blodau nad fi'nangof allan o ffabrig.




Tîm Pêl-droed Merched dan 11



Ymweld a Glan Clwyd

## Gwnïo, Pwytho a Gweu

Ar fore dydd Mawrth yn festri Capel y Fron mae yna grŵp pwytho, gwnïo a gweu yn cyfarfod dan ofal Denny Williams.

Mae Iona sydd yn rhan o'r grŵp wedi bod yn gwnïo a gweu gwahanol bethau sydd am gael eu gyrru allan i'r Gambia. Mae yna bentwr o bethau yn mynd allan i'r Gambia wedi ei drefnu a'i ariannu gan Nia Pritchard o Dremeirchion.

Mae Iona wedi bod yn gwneud ffrogiau haul i enethod ifanc, bagiau i bethau ymolchi a hefyd festiau i lapio babanod newydd anedig. Yn y Gambia mae nhw'n galw'r babanod yn " Fish and Chip Babies " am eu bod nhw'n lapio'r babanod mewn papur newydd !!!

Mi fydd y festiau dipyn gwell na'r papur newydd !!

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r grwp i ddysgu neu i gael help gydag unrhyw waith llaw fel gwnïo, gweu, pwytho neu grosio, croeso i chi ymuno â'r grŵp.

Cysylltwch â Denny ar 07926998065 neu Chris ar 07800576497

Mae o'n grŵp hynod o gyfeillgar ac addysgiadol. Hefyd, yn ffodus iawn, mae llawer o'r grŵp yn medru pobi yn dda a bob wythnos mae yna amrywiaeth o gacennau blasus iawn.

*Chris Hughes*



Rhys Thomas

Eich cynghorydd
Plaid Cymru
ar Gyngor Sir Ddinbych
Yn cynrychioli trigolion Dinbych Isaf
ar y Cyngor Sir
a'r Cyngor Tref



cysylltwch gyda fi ar
07977911300
rhys.thomas@sirddinbych.gov.uk

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Dydd Sul 12-6 Dydd Llun - ar gau
Dydd Mawrth- Gwener 12-3, 5.30 tan hwyr
Dydd Sadwrn ar agor trwy'r dydd
Ffôn: 01745 813377

CLWB PÊL-DROED DINBYCH

Daeth y tymor pêl-droed i ben eleni gyda Dinbych yn gorffen yn y 3ydd safle yng Nghynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Ddwyrain. Mold Alexandra oedd pencampwyr y gynghrair ac sydd wedi ennill dyrchafiad i Gynghrair Gogledd Cymru gyda Phorthmadog yn ail. Mae gan Borthmadog siawns o gael dyrchafiad yn y gêm ail gyfle yn erbyn Caersŵs a oedd yn ail yng Nghynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Orllewin. Bydd y tîm buddugol yn derbyn dyrchafiad. Bydd Dinbych yn parhau i chwarae yng Nghynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Ddwyrain yn ystod y tymor 2022-2023.

Cafodd yr Ail Dîm rediad da o gemau tua diwedd y tymor a gorffennon nhw yn y degfed safle yng Nghynghrair Ail Dîm FAW Gogledd Orllewin, sy'n ganmoladwy iawn yn dilyn dechrau digon anodd i'r tymor.

Cynhaliwyd noson wobrwyo diwedd tymor y Clwb yn y Plas Pigot gyda John Sellers yn diddanu'r dorf gyda'i gerddoriaeth a'i jôcs. Llywydd am Oes y Clwb, Robert (Popsey) Griffiths oedd yn cyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

Enillwyr y noson oedd:
Tîm 1af - Chwaraewr y Rheolwr – Jake Walker
Tîm 1af – Sgoriwr Uchaf – Jake Walker
Tîm 1af - Chwaraewr y Chwaraewyr – Keiron Roberts
2il Dîm - Chwaraewr y Rheolwr –Jack Forrester
2il Dîm – Sgorwyr Uchaf - Harry Lea and James Thomas
2il Dîm - Chwaraewr y Chwaraewyr - Lewis Devine
Chwaraewr Ifanc y Clwb - Sion Jones
Person y Clwb am y tymor – Ellen Lawson

Dewisodd yr FAW Central Park fel lleoliad gêm gyntaf Gogledd Cymru v De Cymru. Byddai enillwyr y gêm yn cynrychioli Cymru yng Nghwpan Rhanbarthau UEFA. Brwydrodd y ddau dîm yn galed ond 0-0 oedd y sgôr derfynol. Yna yn yr ail gêm yn Briton Ferry, Gogledd Cymru oedd yr enillwyr o 4-2 a byddant yn teithio i Ogledd Iwerddon ar gyfer rownd gyntaf y gwpan. Roedd talent leol yn ystod y gêm hefyd gydag Osian Davies o Fferm Llys, Ystrad yn cynrychioli Gogledd Cymru.

Mae'r Clwb wedi cyhoeddi eu timau Rheoli ar gyfer y tymor nesaf i'r Tîm 1af a'r 2il Dîm. Bydd Dewi Llion yn parhau fel rheolwr y tîm 1af, Owain Roberts (Rheolwr cynorthwyol), Brett Jones (Hyfforddwr), Matty Jones (Hyfforddwr), Stuart Griffith (Hyfforddwr gôl-geidwad) a Liam Nash (Cymorth cyntaf). Bydd Gethin Jones yn parhau fel rheolwr yr Ail Dîm wedi ei gynorthwyo gan Ethan Jones (Rheolwr Cynorthwyol a Hyfforddwr) a Roger Jones (Cymorth Cyntaf).

Mae Ysgrifennydd y Clwb, Steve Whitfield yn gobeithio camu i lawr o'i rôl yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Clwb ym mis Gorffennaf. Croesawir unrhyw un sydd â diddordeb yn y rôl i gysylltu gydag Iwan Jones ar 07788627819. Mae sawl swydd wirfoddol eraill ar gael hefyd felly os hoffech helpu i redeg y clwb llwyddiannus yma, cysylltwch ag Iwan Jones eto.

(Luniau ar clawr cefn)


**TEITHIAU ELFYN THOMAS TOURS**

Ffôn 01407 731080 www.elfynthomas.com

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 Mehefin | Sioe Frenhinol yr Ucheldir, Alban | 4 Diwr | £299 |
| 24 Mehefin | Glasgow a Chaeredin, Dwy Ddinas | 4 Diwr | £299 |
| 03 Gorffenaf | Belfast a Giants Causeway | 4 Diwr | £449 |
| 11 Gorffenaf | Ucheldiroedd yr Alban a Rheilffyrdd Rhamantaidd | 5 Diwr | £499 |
| 17 Gorffenaf | Sioe Frenhinol Cymru,Gwesty Clayton Caerdydd | 4 Diwr | £399 |
| 18 Gorffenaf | Caeredin ac Ynys Sky yr Alban | 7 Diwr | £699 |
| 31 Gorffenaf | Amryw o becynnau i Eisteddfod Genedlaethol | 1 -6 Diwr o | £139 |
| 08 Awst | Ynysoedd Arran, Bute ac Arfordir Swydd Ayr | 5 Diwr | £499 |
| 26 Awst | Tudur Wyn, Tri Digri,Traed Moch Mon yn Waterford | 4 Diwr | £399 |
| 15 Medi | Drama'r Dioddefaint Oberammergau, Innsbruk | 10 Diwr | £1749 |
| **01Tach** | **Pawb a'i Fam am Amsterdam gyda Ser Cymru Elin Fflur, Candelas, Tudur Wyn, Tri Digri, Bwncath Elidir Glyn, Mei Gwynedd, Dilwyn Morgan a Llion Williams** | **3 Diwr** | **£239** |
| 09 Hydref | Syr Bryn Terfel, Neuadd Symffoni, Birmingham | 2 Ddiwr | £199 |
| 16 Hydref | Caerdydd a Maenordy Llancaiach Fawr | 4 Diwr | £299 |
| 11 Tach | John ac Alun, Tri Digri, Tudur Wyn i'r Pwll Du (Blackpool) | 3 Diwr | £189 |

Daniel Morris

CIGYDD LLEOL

01745 812585

info@dmorrisbutchers.co.uk

www.dmorrisbutchers.co.uk

124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

PyBj

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf

*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*

Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion

Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332

e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Bu ysgolion Sir Ddinbych wrthi'n brysur yn arddurno eu hysgolion yn lliwiau'r Urdd i groesawu'r Eisteddfod. Llangyfarchiadau i Ysgolion Pentrecelyn, Y Llys a Carrog am ddod i'r brig. Diolch i ysgolion Tref Dinbych am eu hymdrechion i wneud ein croeso yn un lliwgar a thwymgalon.




1af Ysgol Pentrecelyn




2il Ysgol Y Llys




Ysgol Santes Ffraid




3ydd Ysgol Carrog




Ysgol Pendref



Ysgol Plas Bondyffryn




Ysgol Fron Goch



Ysgol Twm o'r Nant

# Clwb Pel-droed Dinbych




Rheolwr y Tîm 1af Dewi Llion gyda Chwaraewr Ifanc y tymor - Sion Jones, Chwaraewr y Rheolwr a'r Sgoriwr Uchaf – Jake Walker a Chwaraewr y Chwaraewyr – Keiron Roberts




Person y Clwb am y Tymor, Ellen Lawson yn derbyn ei gwobr




Jack Forrester – Chwaraewr y Rheolwr yr Ail Dîm yn derbyn ei wobr gan Roberts Popsey Griffiths